



Partneriaeth
Ranbarthol
Gorllewin
Morgannwg

West
Glamorgan
Regional
Partnership

PARTNERIAETH RANBARTHOL GORLLEWIN MORGANNWG

EGWYDDORION STRATEGAETH GWIRFODDOLI

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau gwahanol.

Cysylltwch â Swyddfa Trawsnewid Gorllewin Morgannwg drwy e-bostio west.glamorgan@abertawe.gov.uk gyda manylion eich gofynion.

 @WGLamPship

EGWYDDORION

Yn seiliedig ar y gweithdai mae gan bob partner ymrwymiad i wneud y canlynol:

1. mabwysiadu diffiniad Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru (2015 – yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd) o wirfoddoli
2. rhoi cymorth i wirfoddolwyr a chydabod cyfraniad gwirfoddolwyr wrth gyflwyno gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo gwirfoddoli'n rhagweithiol
3. darparu eglurder ynghylch y mathau o wirfoddoli a'r lefelau o gefnogaeth y mae eu hangen ar rolau gwirfoddol gwahanol
4. bod yn glir ynghylch yr asesiadau gwahanol ar gyfer addasrwydd, recriwtio ac arferion diogelu ar gyfer gwahanol rolau a'r gefnogaeth y bydd y gwirfoddolwr yn ei dderbyn. Mae hyn yn cynnwys trefniadau sefydlu a goruchwylio priodol. Datblygu polisiau a gweithdrefnau arferi gorau i sicrhau bod gwirfoddolwyr yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi yn eu rolau
5. meddu ar ddealltwriaeth glir o'r gwahaniaeth rhwng gwirfoddolwyr a staff ac mae prosesau ar waith i reoli'r ffiniau hyn fel yr amlinellir yn 'Siarter TUC Cymru a CGGC ar gyfer Cryfhau'r Cysylltiadau Rhwng Staff Cyflogedig a Gwirfoddolwyr.
6. mynd ati i chwilio am adborth gan wirfoddolwyr ac ymateb i'r adborth maen nhw'n ei dderbyn
7. deall gwerth rolau gwirfoddoli anffurfiol a ffurfiol a sut y gellid eu defnyddio i ddenu gwahanol fathau o wirfoddolwyr a chynyddu amrywiaeth o ran y bobl sy'n gwirfoddoli
8. ceisio deall cymhellion gwirfoddolwr a'u helpu i gyflawni eu nodau mewn perthynas â gwirfoddoli
9. bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo amrywiaeth yn eu grŵp o wirfoddolwyr a rhoi cyhoeddusrwydd eang i'w cyfleoedd i wirfoddoli gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu gwahanol, gan gynnwys gwefan Gwirfoddoli Cymru
10. darllen yr wybodaeth ddiweddaraf am yr arfer gorau wrth wirfoddoli a chymryd arweiniad gan Gyngorau Gwirfoddol Sirol (CGS) lleol
11. deall pwysigrwydd casglu data o safon am bwy sy'n gwirfoddoli a'r gwahaniaeth mae gwirfoddoli'n ei wneud iddyn nhw ac wrth gyflwyno gwasanaethau
12. darparu cyfleoedd i leisiau gwirfoddolwyr gael eu clywed
13. sicrhau bod y rheini sy'n cefnogi gwirfoddolwyr yn uniongyrchol yn cwblhau hyfforddiant rheoli gwirfoddolwyr ac yn deall arfer da gwirfoddoli
14. cynnal trafodaethau strategol am y gwahanol ffyrdd o gynnwys gwirfoddolwyr a fydd yn helpu i gyflawni a gwireddu eu gweledigaeth.